COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 22ain Tachwedd 2023

.

PRESENNOL – Gwyn Davies, Awel Hughes, Carwyn Edwards (Cadeirydd), Gwynfryn Jones, Llyr Jones, Alun Jones, Sioned Jones, Rhian Ellis (Clerc).Cyng Gwennol Ellis

1.YMDDIHEURIADAU – .Glennydd Evans.

2. DATGAN BUDDIANNAU – DIM

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir gyda'r newidiadau gan Llyr ac eilwyd gan Gwynfryn.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – Nodwyd mai Rhian ag Awel fydd ar bwyllgor y Neuadd ar ran y Cyngor Cymuned.

Y Clerc I adael I Lywodraeth Cymru bod arwydd Dinmael yn disgyn.

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 29.10.23 £21,2284.22

Gwariant hyd yma Nant Fach - £200

Trafodwyd y precept am y flwyddyn 2024/25 a penderfynwyd ei adael run fath am eleni.

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Gwyn ac eilwyd gan Awel a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. P Butler -atgyweiro Neuadd Fach | s137 | £400.00 |
| 2. Rhydian Morris torri gwair | s137 | £450.00 |
| 3. ICO Data Protection | s137 | £40.00 |

7. NEUADD FACH - Angen cael Arolwyg Strwythurol ar yr adeilad – Gofyn I Ilan Jones Ty Newydd, pwy sydd yn gwneud yr un ar y Gorlan.

Llyr a Carwyn yn ymddiriedolwyr ar y Neuadd Fach – Carwyn yn edrych I fewn I weld be fydd yn digwydd nesa.

8.CAEAU CHWARAE -

Dinmael – Aros am yr Astudiaeth Dichonolrwydd

9. CYNLLUNIO – DIM

10. GOHEBIAETH – Llythyr Llyfrgell yn gofyn am £750 I gadw oriau llyfrgell – Esboniodd Gwennol bod 2 aelod o'r 4 Cyngor cymuned yn Uwchaled ar Bwyllgor rhedeg yr HWB sef adeilad y llyfrgell. Penderfynwyd ein bod yn cefnogi y cais.

Tim Ballam o Fit Conwy yn gofyn am £200 I gynnal cynllun gweithgareddau y plant dros wyliau'r haf. Cefnogwyd y Cais.

Trafodwyd Cyflog y Clerc a penderfynwyd dilyn Graddfa Cynghorau Lleol.

Ambiwlans Awyr Cymru yn gofyn am gyfraniad, penderfyndwyd rhoi £200 tuag at yr achos.

11. UNRHYW FATER ARALL

Y Clerc yn gofyn am ganiatad I brynu Cyfrifadur i gael gwneud Gwaith y Cyngor er mwyn cadw pob dim yn gyfrinachol – Cytunwyd I'r cais a'r clerc I brynu un a cael ei ad dalu yn y cyfarfod nesa.

Dywedodd y Clerc ei bod wedi trefnu bod yna goeden nadolig I ddod I'r Llan ond bod angen trefnu noson I'w gosod.

Cafwyd gwybod gan Tomos Hughes nad yw y Difibulator yn gweithio yn Llangwm a bod angen cael un Newydd – penderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn talu amdano.

Dywedodd y Cyng. Gwennol Ellis bod yna arwyddion yn cael eu rhoi fyny ar ffordd ger Gellioedd I nodi pwy sydd yn cael blaenoriaeth ar y ffordd.

12. EITEMAU I'R PWYLLGOR NESA'. –

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

31.01.24